# Mewn Undod a Dewrder mae Gobaith: 2025 - 2028

Stonewall

# Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw byd lle mae gan bawb, ym mhobman, hawliau cyfartal.

Byddwn yn gweithio nes bod pob person Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Cwiar a Mwy yn byw'n rhydd rhag gwahaniaethu, rhagfarn ac anghydraddoldeb, gan wneud ein dyfodol cyffredin yn decach, yn fwy diogel ac yn fwy llewyrchus.

# Cyflwyniad:

Sefydlwyd Stonewall yn 1989. Cafodd ei ddychmygu mewn dewrder, undod a gobaith, a'i sefydlu fel mudiad eiriolaeth a fyddai'n ategu gwaith mudiadau eraill oedd yn ymgyrchu dros hawliau cyfartal. Nod gwreiddiol Stonewall oedd sicrhau bod Adran 28 yn cael ei diddymu, ac aeth ati wedyn i greu agenda bolisi a deddfwriaethol hynod lwyddiannus a newidiodd y tirlun i bobl LHD (T) a'r rhai sy'n eu cefnogi yng ngwledydd Prydain. Mae llwyddiannau deddfwriaethol wedi golygu y gall pobl LHDTC+ bellach, ymhlith pethau eraill, ddisgwyl gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb yn yr ysgol; priodi; gwasanaethu yn y fyddin; cael triniaeth ffrwythlondeb, a mabwysiadu, yn ogystal â chael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu o dan y gyfraith.

> Mae lle i fudiad newydd ymchwilio i faterion perthnasol ar sail broffesiynol. Ni ddylai mudiad o'r fath geisio disodli mudiadau eraill sy'n ymgyrchu dros hawliau pobl LHDTC+* ym Mhrydain. Ni ddylai honni bod yn gynrychiolydd nac yn arweinydd ar gyfer y gymuned LHDTC+*. Bydd yn sefydliad pragmataidd, fydd yn dilyn cyfres o amcanion penodol; pwyllgor gwaith i bennu polisi ac ysgrifenyddiaeth broffesiynol.
>
> **Ail Gonfensiwn Limehouse, 11 Medi 1988**

# Cyflwyniad gan ein Cadeirydd



Mewn amgylchedd sy'n cael ei sarnu'n gynyddol gan ofn, gelyniaeth a rhagfarn tuag at bobl LHDTC+, mae Stonewall yn sefyll fel ffagl o obaith ac fel arweinydd grymus yn y frwydr ddi-baid dros gydraddoldeb. Wrth i fi fyfyrio ar brofiad fy mywyd a hanes Stonewall, mae'r gwydnwch a'r cryfder rydw i wedi'i weld yn ein cymunedau yn fy ysbrydoli.

Drwy Mewn Dewrder ac Undod mae Gobaith, rydyn ni'n amlinellu ein pwyslais strategol sy'n canolbwyntio ar dri phrif nod: llywio drwy'r cythrwfl, siapio polisi a deddfwriaeth, a meithrin llefydd cynhwysol.

Mae'r pwyslais strategol yma'n adlewyrchu'r ffaith ein bod mewn hinsawdd ar hyn o bryd sy'n atgoffa rhywun o'r brwydrau cynnar dros hawliau LHDTC+, lle mae camau ymlaen a ddigwyddodd ar ôl brwydro caled, bellach o dan fygythiad yn fyd-eang. Rydw i'n tynnu ar fy mhrofiad personol fel cyn-swyddog yn y fyddin fuodd yn gwasanaethu mewn cyfnod pan oedd bod yn unigolyn LHDTC+ yn y fyddin yn drosedd. Fe welais i'n uniongyrchol effaith ddofn gwahaniaethu ac anghydraddoldeb, wnaeth fy ngorfodi i geisio byw bywyd heb allu bod yn fi fy hunan.

Erbyn heddiw, mae llawer o'r rhwystrau oedd yn fy wynebu i yn y lluoedd arfog wedi'u chwalu, ac mae iawn ar y gweill ar gyfer y rhai a ddioddefodd. Dylai'r cyd-destun hanesyddol ein grymuso i lywio drwy'r anawsterau presennol gyda dewrder a gwydnwch.

Mae hanes unigryw Stonewall yn ein galluogi i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o siapio polisïau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+. Rydw i'n myfyrio'n aml ar yr effaith sylweddol a gafodd ein sylfaenwyr – a aeth ati drwy eu gweledigaeth i sefydlu Stonewall fel mudiad ymgyrchu grymus i frwydro yn erbyn anghyfiawnderau fel Adran 28. Mae ein gwaith eiriolaeth wedi'i seilio ar yr un egwyddorion, sef dewrder, trafod a gobaith.

Allwn ni ddim gorbwysleisio pa mor bwysig yw creu amgylchedd cynhwysol, yn enwedig yn ystod cyfnodau cythryblus. Mae stori Stonewall ei hunan yn dangos bod amrywiaeth o safbwyntiau yn hanfodol er mwyn gwneud cynnydd ystyrlon. Rydyn ni'n cydnabod bod cydraddoldeb LHDTC+ yn Seren y Gogledd rydyn ni'n ei rhannu. Drwy feithrin amgylchedd lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, rydyn ni'n cymryd camau breision tuag at gymdeithas fwy cynhwysol.

Bydd Stonewall yn ddiysgog yn yr ymdrech i lywio drwy gythrwfl y presennol, i siapio polisïau gwybodus a chynhwysol ac i feithrin llefydd lle gall pawb weithio, byw a chwarae'n rhydd.

Fel rydw i wedi'i dysgu o brofiad, mae gweddnewidiad yn bosib, ond mae'n gofyn am ddewrder, undod, a chred gyffredin mewn rhywbeth gwell. Mae'n gofyn am waith gan bob un ohonon ni: cymunedau, cynghreiriaid a phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Wrth sefyll gyda'n gilydd, bydd ganddon ni fwy na gwydnwch, bydd ganddon ni hefyd obaith. A gyda'r gobaith yna, fe gamwn ni 'mlaen.

Catherine Dixon
**Cadeirydd**

# Cyflwyniad gan ein Prif Weithredwr



Wrth i ni agosáu at ein pen-blwydd yn 40 oed, mae cymaint yn dal i'w wneud er mwyn sicrhau bod gan bob person Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws a Chwiar (LHDTC+) yr un hawliau ag eraill; bod yna gydraddoldeb go iawn o dan y gyfraith; bod yna gyfiawnder cymdeithasol; bod mynediad at ofal iechyd yn deg a bod y llefydd rydyn ni'n eu rhannu yn gynhwysol.

Allwn ni ddim cymryd yn ganiataol bellach bod ein hawliau'n ddiogel, a bod cynnydd yn anochel, felly mae angen Stonewall arnon ni unwaith eto i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau ein cymuned LHDTC+ amrywiol wrth wraidd trafodaethau gwleidyddol, mewn ystafelloedd bwrdd ac yng nghoridorau grym.

Mae Stonewall wedi bod yn ffagl o obaith erioed. Pan oeddwn i'n 15 oed, ro'n i'n teimlo'n ddewrach wrth weld ymrwymiad ei sylfaenwyr – a'i chefnogwyr cynnar – a safai'n ddewr gan ddatgan bod pobl LHDTC+ yn haeddu triniaeth gyfartal o dan y gyfraith ac yn y gymdeithas yn ehangach. Rydw i, fel cynifer, wedi elwa'n aruthrol o'r newidiadau a grëwyd gan Stonewall ac eraill dros y 35 mlynedd diwethaf. Mae Stonewall yn bwysig i fi'n bersonol oherwydd ei fod wedi creu cymaint o newid cymdeithasol cadarnhaol. Fe ymgeisiais i fod yn Brif Weithredwr newydd gan fod rhaid i ni barhau i fod yn ffagl o obaith a chynnydd. Rhaid i'n gwaith barhau nes bod pawb yn teimlo y gallan nhw fyw'n ddiogel, yn rhydd ac yn agored, heb fod ofn rhagfarn a gwahaniaethu.

A pheidiwn â thwyllo'n hunain: er gwaetha'r cynnydd, rydyn ni ymhell iawn o weld gwireddu cydraddoldeb. Mae gormod o bobl LHDTC+ yn dal i gael eu bwlio yn yr ysgol, yn teimlo eu bod yn gorfod cuddio'u hunaniaeth yn y gwaith, neu'n mynd heb y gofal iechyd sydd ei angen arnynt, ac yn wynebu risgiau uwch i'w hiechyd meddwl. Hyd yn oed yn ddiweddarach yn eu bywydau, mae rhai pobl hŷn LHDTC+ yn cael eu gwthio'n ôl i fudandod — gan orfod dechrau cuddio pwy ydyn nhw unwaith eto. Dyna'r cefndir sy'n ein huno i weithio dros gydraddoldeb, rhyddid a llawenydd i bob person LHDTC+.

Rydyn ni wedi gweld pobl yn dadlau ar hyd hanes bod gwella hawliau rhai yn lleihau hawliau pobl eraill. Dydw i ddim yn credu bod hynny'n wir. Er nad yw'n hawdd ei wneud, nac yn bosib heb gyfaddawdu, ni ddylid ystyried gwella hawliau pawb fel gêm lle mae'n rhaid i rywun golli er mwyn i eraill ennill. Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae angen i ni sicrhau bod ganddon ni fframwaith deddfwriaethol cynhwysfawr sy'n sicrhau bod pob aelod o'r gymuned LHDTC+ yn cael amddiffyniad a thriniaeth gyfartal o dan y gyfraith.

Roedd y Deyrnas Unedig yn arfer bod yn arweinydd byd-eang o ran hawliau LHDTC+, ond nid yw hynny'n wir erbyn hyn. Gobeithiwn y bydd yn arweinydd unwaith eto'n fuan. Byddwn ni yn Stonewall yn ymdrechu i weithio'n gydweithredol, gan ffurfio cynghreiriau gyda'r rhai sy'n rhannu cred gyffredin mewn dynoliaeth a chydraddoldeb a gweithio'n ddiflino i greu cymdeithas gydradd, ddiogel, deg a ffyniannus a fydd, yn y pen draw, o fudd i bawb.

Simon Blake, OBE
**Prif Weithredwr**

# Ein Diben:

Stonewall ydyn ni: rydyn ni'n gweithio er mwyn gwneud y byd yn lle diogel a chyfartal i bobl LHDTC+ fyw, gweithio a ffynnu.



Yn ein plith mae aelodau o wahanol bleidiau gwleidyddol, a phobl sydd heb fod yn aelodau o'r un blaid. Ond rydyn ni'n dod ynghyd yn y teimlad o fraw ynghylch yr awyrgylch. Awyrgylch lle mae nifer yr achosion o drais yn erbyn pobl LHDTC+ ar gynnydd. Rydyn ni'n poeni bod anoddefgarwch difeddwl yn cael ei fynegi'n fwy hyderus mewn rhai mannau. Ac rydyn ni'n ofni bod eraill, yn yr amgylchiadau sy'n cael eu creu, yn gweld arwydd sy'n caniatáu casineb newydd. O'n rhan ni, rydyn ni'n datgan ein cred mewn tegwch, moesgarwch tuag at bobl o bob math; a goddefgarwch o'r gwahaniaeth rhyngddynt. Yn gyffredinol, rydyn ni am rybuddio yn erbyn hinsawdd o erlid.

**Teimlad o Fraw: Hysbyseb papur newydd oedd hon a gyhoeddwyd gan 280 o ffigurau cyhoeddus blaenllaw o bob cefndir, cyn dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi ar Adran 28, ar 1 Chwefror 1988. Bron i 40 mlynedd yn ddiweddarach, gellid cyhoeddi'r un geiriau heddiw.**

# Ein Gwerthoedd:

Mae Stonewall yn fudiad amrywiol a chynhwysol, wedi'i seilio ar werthoedd sydd wedi'n helpu i gael effaith sydd wedi newid bywydau pobl LHDTC+ dros gyfnod o ddegawdau. Dim ond oherwydd y partneriaid, y cefnogwyr, y cleientiaid a'r gymuned sydd wedi sefyll gyda'i gilydd ac sy'n rhannu'r gwerthoedd yma y mae ein gwaith wedi bod yn bosib.

**DEWR:** Rydyn ni'n gweithio'n ddewr dros gynnydd. Rydyn ni'n gwybod na fyddwn ni bob amser yn cadw pawb yn hapus, ond rydyn ni'n feiddgar yn y strategaethau a'r tactegau rydyn ni'n credu fydd yn sicrhau newid i bobl LHDTC+.

**CYDWEITHREDOL:** Rydyn ni'n credu mewn cydweithio. Rydyn ni'n cynnull trafodaethau, safbwyntiau a chynghreiriau amrywiol gydag ystod eang o bartneriaid wrth weithio dros hawliau cyfartal i bobl LHDTC+.

**AMRYWIOL:** Rydyn ni'n sicrhau bod yr amrywiaeth rydyn ni'n ei phregethu yn cael ei rhoi ar waith ganddon ni. Mae amrywiaeth o ran meddwl, hunaniaeth, profiad ac agweddau ymgyrchu yn ein galluogi i sicrhau canlyniadau sy'n cael mwy o effaith i bobl LHDTC+.

**PENODOL:** Allwn ni ddim gwneud popeth, a ddylen ni ddim ceisio gwneud popeth. Rydyn ni'n cefnogi gwaith sefydliadau eraill, yn cyfeirio pobl atynt ac yn rhoi sylw iddynt.

**PRAGMATAIDD:** Rydyn ni'n bragmataidd. Gwneir ein holl ddewisiadau drwy sbectol yr hyn fydd, yn y pen draw, yn sicrhau effaith gadarnhaol ar gyfer hawliau LHDTC+.

**GWASANAETH:** Rydyn ni'n dal ein hunain i safonau uchel. Rydyn ni'n credu bod atebolrwydd personol ac ar y cyd yn hanfodol; ac rydyn ni'n ymdrechu i wasanaethu cleientiaid, partneriaid a rhanddeiliaid yn effeithiol.

# Ein Hamcanion Strategol: 2025 - 2028

- Darparu arweinyddiaeth i **lywio drwy'r cythrwfl** o ran materion LHDTC+, a gweithio mewn cynghreiriau i amddiffyn a gwella hawliau LHDTC+ ar draws pedair gwlad Prydain a'r tu hwnt

.

- **Drwy weithio mewn partneriaeth**, dilyn agenda bolisi a deddfwriaethol sy'n canolbwyntio ar wella bywydau LHDTC+ o un diwrnod i'r llall gan ddefnyddio data a thystiolaeth.

- Cefnogi datblygiad llefydd diogel a **chynhwysol lle** gall pawb, gan gynnwys pobl LHDTC+, lwyddo drwy gydol eu bywydau.



## Llywio drwy'r cythrwfl:

Byddwn yn darparu arweinyddiaeth i lywio drwy'r cythrwfl ac yn gweithio mewn cynghreiriau i amddiffyn a gwella hawliau LHDTC+ ar draws gwledydd Prydain a'r tu hwnt.

Mae bywyd wedi bod yn gythryblus i'r gymuned LHDTC+ erioed; ac mae llawer o wahanol strategaethau wedi'u defnyddio i lywio drwy gyfnodau cythryblus. Yn fyd-eang, rydyn ni yng nghanol adlach diwylliannol a phanig moesol. Mae'n gyfnod o ddeddfau sy'n mynd â ni'n ôl mewn amser, cyfyngiadau ar ryddid a thwf mudiadau poblyddol. Dyma'n hatgoffa unwaith eto nad yw hawliau sydd wedi'u hennill drwy frwydr galed yn ddiogel bob amser. Heb os, rydyn ni mewn cyfnod arall o gythrwfl.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Meithrin a chryfhau cynghreiriau: mynd ati i feithrin cynghreiriau deinamig yn y mudiad LHDTC+ byd-eang a gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, y gymdeithas sifil a seneddwyr er mwyn sefyll yn gadarn yn wyneb polisïau a gweithredoedd sy'n mynd â ni'n ôl mewn amser ac sy'n effeithio ar bobl LHDTC+ a chymunedau eraill sydd wedi'u hymyleiddio.

- Grymuso drwy addysg a chymorth: Cynnull, datblygu a chefnogi rhaglenni effeithiol sy'n addysgu, yn grymuso ac yn ysbrydoli unigolion, sefydliadau ac arweinwyr i eiriol dros hawliau cyfartal i bobl LHDTC+.

- Defnyddio data, tystiolaeth a straeon bywyd go iawn fel sylfaen ar gyfer eiriolaeth: gan greu naratifau grymus i dynnu sylw at yr angen brys am gydraddoldeb a chyfiawnder i'n cymunedau LHDTC+ amrywiol.

> Yn ystod y dyddiau tywyllaf, fe fydden ni'n claddu'n ffrindiau yn y bore, yn protestio yn y prynhawn ac yn dawnsio drwy'r nos. Roedd y ddawns yn ein cadw yn y frwydr, achos dros y ddawns roedden ni'n brwydro. Ar y pryd, doedd hi ddim yn edrych fel ein bod ni'n mynd i ennill, ac fe wnaethon ni. Dydy hi ddim yn teimlo fel ein bod ni'n mynd i ennill nawr, ond fe allen ni. Daliwch i frwydro, daliwch i ddawnsio.

DAN SAVAGE, 2024

# Siapio polisi a deddfwriaeth:

## Drwy weithio mewn partneriaeth, byddwn yn dilyn agenda bolisi a deddfwriaethol sy'n canolbwyntio ar wella bywydau LHDTC+ o un diwrnod i'r llall.

Mae newid cynaliadwy a hirdymor yn cael ei greu drwy gymysgedd o newid cymdeithasol a chamau deddfwriaethol; a does dim modd ei gyflawni drwy un llwybr yn unig. Dros y degawdau, mae Stonewall wedi rhoi rhesymau i wleidyddion dros greu newid, hyd yn oed pan nad oedden nhw'n gweld yr angen yn reddfol. Fe wnawn ni chwilio am dir cyffredin a chonsensws. Gyda'n gilydd, rhaid i ni addysgu, cymell ac ysbrydoli deddfwyr i gefnogi cydraddoldeb, a pharhau i siapio'r tirlun deddfwriaethol a pholisi er mwyn gwella bywydau pobl LHDTC+.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Gwella'r deddfau a'r polisïau sy'n cael effaith ar bobl LHDTC+ drwy ddefnyddio data a thystiolaeth i gefnogi seneddwyr a deddfwyr i gyflwyno, hyrwyddo a gyrru deddfwriaeth effeithiol sy'n gwella bywydau pobl LHDTC+.
- Cynnal ymchwil gyda phartneriaid fel sail ar gyfer ein blaenoriaethau a rhoi llwyfan i leisiau ac anghenion holl aelodau ein cymunedau bywiog.
- Cynnull ac ymdrefnu, gan weithio gydag eraill ar draws y gymdeithas sifil, y sector cyhoeddus a chymunedau busnes er mwyn eiriol yn effeithiol dros gydraddoldeb a hawliau LHDTC+ gyda llunwyr polisi a deddfwyr.

> "Dydy dy hawliau di i gyd ddim gen ti, fel un unigolyn, tan bod gan bawb ohonoch chi eich hawliau.
>
> MARSHA P. JOHNSON

# Llefydd Cynhwysol:

## Byddwn yn cefnogi datblygiad llefydd diogel a chynhwysol lle gall pawb weithio, chwarae a llwyddo drwy gydol eu hoes.

Mae pobl LHDTC+ yn yr un llefydd â phawb arall. Gyda'n gilydd, mae angen i ni sicrhau eu bod nhw'n cael eu diogelu, eu hamddiffyn a'u clywed i'r un graddau â phawb arall. Mae ein gwaith rhaglennol ac ymgyrchu – gyda busnesau, mudiadau, sefydliadau a chyrff cyhoeddus a diwylliannol – yn cael ei yrru gan ein hargyhoeddiad bod pob person LHDTC+ yn haeddu cael byw, gweithio a chwarae mewn amgylchedd lle gallan nhw lwyddo.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Dylunio rhaglenni sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth sy'n helpu i greu amgylchedd cynhwysol ar gyfer pobl LHDTC+ a chefnogi gweithleoedd sydd eisiau creu diwylliant perfformiad uchel a chynhwysol sy'n denu, yn cadw ac yn datblygu pobl LHDTC+
- Gweithredu ymgyrchoedd creadigol sydd â'r nod o greu amgylchedd mwy diogel a theg i bobl LHDTC+ drwy wella ymwybyddiaeth a chefnogaeth y cyhoedd.
- Meithrin cyweithiau strategol gyda mudiadau, sefydliadau a phartneriaid i ddylunio ac eiriol dros newidiadau polisi cynhwysol gan ddefnyddio data, tystiolaeth ac ymchwil.

> "Mae'n rhaid i ni fod yn weladwy. Does arnon ni ddim cywilydd o bwy ydyn ni
>
> SYLVIA RIVERA

# Pwy ydyn ni

## Mae Stonewall yn rhan o fudiad bywiog, byd-eang ehangach sy'n eiriol dros hawliau LHDTC+ ac sy'n dal i dyfu.

Dros y 35 mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi helpu i greu newid gweddnewidiol ym mywydau pobl LHDTC+ gwledydd Prydain. Mae ein gwaith wedi sbarduno newid cadarnhaol o ran agweddau'r cyhoedd ac mewn polisi cyhoeddus, ac mae yna dros 3000 o fudiadau LHDTC+ ledled gwledydd Prydain erbyn hyn.

Rydyn ni'n cyflwyno ymgyrchoedd, rhaglenni a gwaith polisi sy'n canolbwyntio ar sicrhau newid dwfn a chynaliadwy, drwy gynnull, cydweithio a thrafod.

Rydyn ni'n cefnogi seneddwyr a deddfwyr; yn dylunio polisïau ac ymgyrchoedd ac yn darparu rhaglenni a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar sicrhau hawliau cyfartal i bobl LHDTC+.

Yn fyd-eang, rydyn ni'n wynebu gwrthwynebiad cynyddol i'r gred bod pawb yn haeddu hawliau cyfartal. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn sefyll yn gadarn ac yn eiriol dros yr hyn rydyn ni'n gwybod ei fod yn wir:

Mae pawb, ym mhobman, yn haeddu hawliau cyfartal.



# Sut rydyn ni'n gweithio:

## Bydd ymagwedd Stonewall wedi'i gwreiddio yn ein treftadaeth. Ym 1989, dewisodd Stonewall fod yn yr ystafell ac wrth y bwrdd gyda'r rhai oedd â'r dylanwad i allu sicrhau newid cadarnhaol ac ystyrlon i bobl LHDTC+. Heddiw, dydy ein hymagwedd ni ddim gwahanol.

Dros y degawdau, fe ddysgon ni mai dylanwad effeithiol sydd wrth wraidd newid cynaliadwy – cynnig gobaith; newid agweddau; bod gofyn cymryd rhan er mwyn magu dylanwad; bod gallu cyfranogi'n effeithiol yn gofyn am bragmatiaeth, a bod pragmatiaeth yn gofyn am y gallu i weithio ar anawsterau a dod o hyd i dir cyffredin gyda grwpiau amrywiol.

Yn y pen draw, dim ond sgwrsio adeiladol wedi'i seilio ar ddata a thystiolaeth o ansawdd da, cynghreiriau eang, a phragmatiaeth all sicrhau cydraddoldeb llawn i bobl LHDTC+.

Mae pobl LHDTC+ yn yr un llefydd â phawb arall; a bydd Stonewall yn gweithio i sicrhau eu bod nhw'n cael eu diogelu, eu hamddiffyn a'u clywed i'r un graddau â phawb arall. Mae ein gwaith rhaglennol ar draws ysgolion, gweithleoedd a chynhwysiant ym maes chwaraeon wedi'i yrru gan y gred bod pob person LHDTC+ yn haeddu cael byw, gweithio a chwarae mewn amgylchedd lle gallan nhw ffynnu, yr un fath â phawb arall.

Ers ei sefydlu ym 1989, mae Stonewall wedi bod yn gynullydd – gyda swyddogaeth o ddod o hyd i dir cyffredin a chonsensws mewn byd sy'n gynyddol rhanedig – a hefyd yn arweinydd sy'n cefnogi gweithleoedd, ysgolion, sefydliadau crefyddol a chwaraeon ac eraill gydag ymagweddau i sicrhau cynhwysiant LHDTC+.

Mae hanes Stonewall o gynnull, cydweithio ac arwain wedi ein galluogi i greu newid cyfreithiol a diwylliannol dwfn a pharhaol dros y 35+ mlynedd diwethaf. Rydyn ni'n adnewyddu ein hymrwymiad i'r agwedd yna wrth i ni gychwyn ar y strategaeth newydd.

# Rhan ganolog yn y gwaith o sicrhau newid ers 1989

Dros y 35 mlynedd diwethaf, mae Stonewall wedi canolbwyntio ei weithgarwch yn bennaf mewn dau faes allweddol – dylanwadu ar ddeddfwriaeth a pholisi, a chreu newid drwy ymchwil, rhaglenni a datblygu arweinyddiaeth.

Mae Stonewall wedi chwarae rhan arwyddocaol a phwysig o ran newid y gyfraith er mwyn gwella bywydau pobl LHDTC+. Mae hyn yn cynnwys:

## DIDDYMU ADRAN 28:

Fe'n sefydlwyd mewn ymateb uniongyrchol i Adran 28, y ddeddfwriaeth homoffobaidd oedd yn atal pobl ifanc rhag dysgu am fod yn hoyw mewn ysgolion. Cymerodd ddeuddeg mlynedd yn yr Alban, a phedair blynedd ar ddeg yng Nghymru a Lloegr, i ddymchwel y gyfraith yma.

## CYDRADDOLI OEDRAN CYDSYNIO:

Drwy Ddeddf Diwygio Troseddau Rhywiol 2001, gostyngwyd yr oedran cydsynio i ddynion hoyw a deurywiol i 16 oed, gan gysoni'r oedran cydsynio â'r oedran i bobl heterorywiol. Ar ôl 35 mlynedd o anghydraddoldeb, roedd hon yn fuddugoliaeth enfawr.

## CODI'R GWAHARDDIAD AR WASANAETH MILWROL:

Tan y flwyddyn 2000, roedd pobl LHDTC+ wedi'u gwahardd o fyddin Prydain, ac yn aml byddent yn cael eu diswyddo neu eu hamddifadu o'u medalau. Ymgyrchodd Stonewall i ddod â'r gwahaniaethu yma i ben, gan arwain at ddiddymu'r gwaharddiad yn y flwyddyn 2000. Yn 2025, cytunwyd o'r diwedd ar fframwaith o iawndal i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

## YR HAWL I GYPLAU LHDTC+ FABWYSIADU:

Daeth y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant i rym yn 2002 gan ganiatáu i gyplau di-briod, gan gynnwys cyplau LHDTC+, wneud cais ar y cyd i fabwysiadu.

## CYDRADDOLDEB PRIODASOL:

Gwnaed hanes drwy Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, oedd yn cyfreithloni priodas rhwng cyplau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr. Ymunodd yr Alban yn 2014, ond ni chafwyd cydraddoldeb priodasol yn Iwerddon tan 2020. Roedd y newidiadau yma'n fuddugoliaethau nodedig i hawliau pobl LHDTC+, ac yn cynrychioli mwy na dim ond yr hawl i briodi – roedd yn golygu cydnabyddiaeth, urddas a chydraddoldeb.

Mae'r rhain wedi bod yn gerrig milltir o bwys, ond mae mwy i'w wneud o hyd – wnawn ni ddim gorffwys tan y byddwn yn byw mewn cymdeithas sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, rhagfarn ac anghydraddoldeb i bobl LHDTC+.

> "Fydd gobaith byth yn fud
>
> HARVEY MILK

Stonewall

**I ddysgu mwy am ein gwaith, ewch i'n gwefan: https://www.stonewall.org.uk**

**I weld ein diweddariadau rheolaidd, dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol.**

Stonewall, 192 St John Street, London EC1V 4JY
info@stonewall.org.uk Rhif Elusen 1101255